**PWYLLGOR CRONFA BENSIWN CLWYD**
**21 CHWEFROR 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mercher, 21 Chwefror 2018

**YN BRESENNOL: Cynghorydd Dave Hughes (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Ted Palmer, Ralph Small, Haydn Bateman.

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Cynghorydd Huw Llewelyn Jones (Cyngor Sir Ddinbych), Cynghorydd Nigel Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Mr Steve Hibbert (Cynrychiolydd Aelod o'r Cynllun), Cynghorydd Andrew Rutherford (Cynrychiolydd Cyflogwyr Cynllun Arall)

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Billy Mullin.

**HEFYD YN BRESENNOL (FEL ARSYLWYR):** Gaynor Brookes/Steve Jackson (Bwrdd Cronfa Bensiynau Clwyd)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Panel Ymgynghorol yn cynnwys: Colin Everett (Prif Weithredwr), Gary Ferguson (Rheolwr Cyllid Corfforaethol), Philip Latham (Rheolwr Cronfa Bensiynau Clwyd), Karen McWilliam (Ymgynghorydd Annibynnol – Aon Hewitt), Kieran Harkin (Ymgynghorydd Buddsoddiadau Cronfa – Grŵp JLT), Paul Middleman (Actiwari'r Gronfa – Mercer).

Swyddogion/Ymgynghorwyr yn cynnwys: Debbie Fielder (Rheolwr Cyllid Pensiynau), Helen Burnham (Rheolwr Gweinyddu Pensiynau) a Megan Fellowes (Prentis – Mercer – cymryd cofnodion).

Siaradwyr gwadd yn cyflwyno yn cynnwys: John Simmonds (CEM Benchmarking), David Cullinan (PIRC), Sasha Mandich (Russell Investments) a Duncan Lowman (Link Fund Solutions).

Cyn dechrau'r cyfarfod, gofynnodd y Cadeirydd i bawb gyflwyno eu hunain a chroesawu aelodau o'r Bwrdd Pensiwn. Croesawyd y Cynghorydd Ted Palmer i'w gyfarfod Pwyllgor cyntaf gan y Cadeirydd.

## 99. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS GWRTHDARO O RAN CYSYLLTIAD)

Ni ddatganwyd unrhyw wrthdaro newydd. Cadarnhaodd y Cynghorydd Palmer ei fod wedi cwblhau'r buddiannau sy'n gwrthdaro.

## 100. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2017.

**PENDERFYNWYD:**

Cytunwyd y gellid derbyn, cymeradwyo a llofnodi'r cofnodion gan y Cadeirydd.

## 101. RHAGLEN

Nododd y Cadeirydd nad oedd y diweddariad arferol wedi'i gynnwys, gan mai'r prif eitemau oedd y tri chyflwyniad gan y siaradwyr gwadd. Yr unig ddiweddariad a gafwyd oedd yr un yn ymwneud â Chronfa Bensiynau Clwyd ar eitem 7 ar y rhaglen.

Fe wnaeth y Cadeirydd drosglwyddo i Mr Latham ar gyfer cyflwyniad byr.

Nododd Mr Latham, er bod y tri chyflwyniad yn wahanol, roeddent â chysylltiad agos â'i gilydd o ran sut roedd buddsoddiadau'n cael eu rheoli a sut y mesurir ac y meincnodir perfformiad o ran risg yn erbyn enillion. Byddant yn darparu sail dros ddadl ar gyfer y cyfarfod hwn, yn ogystal â chyfarfodydd y dyfodol.

Byddai'r ddau gyntaf yn edrych ar berfformiad buddsoddiad Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS); mae'r cyflwyniad cyntaf yn ystyried pa mor dda y perfformiodd yr LGPS yn ei gyfanrwydd o safbwynt buddsoddi a pham, tra bod yr ail yn ystyried sut mae'r Gronfa'n cymharu â'i chymheiriaid ac yn edrych ar yr effaith ar berfformiad buddsoddi a chostau i'r Gronfa ar gyfer ein hathroniaeth risg is.

Roedd y trydydd cyflwyniad gan weithredwr newydd Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP), i ddangos y broses o benodi rheolwyr buddsoddi drwy'r WPP, oherwydd ni fyddai hynny'n dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor yn y pen draw.

Atgoffodd Mr Latham y Pwyllgor mai prif nod y strategaeth yw darparu enillion digonol ar fuddsoddiad i dalu am bensiynau am sawl blwyddyn i'r dyfodol, wrth geisio cynnal cost cyflogwr sefydlog. I wneud hyn, mae angen i'r Gronfa gyflawni neu guro'r rhagdybiaeth buddsoddi actiwaraidd ar gyfer enillion dros CPI yn y tymor hir, ond nid yw hynny'n golygu'r enillion buddsoddi uchaf posibl drwy gymryd risg annerbyniol.

## 102. PERFFORMIAD BUDDSODDIAD Y CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL

Croesawyd David Cullinan o PIRC gan y Cadeirydd i gyflwyno'r perfformiad buddsoddiad ar draws byd yr LGPS i'r Pwyllgor.

Yn ystod y cyflwyniad, codwyd nifer o sylwadau a chwestiynau gan y Pwyllgor a swyddogion/ymgynghorwyr.

Cyflwynodd Mr Cullinan ei hun a rhoddodd grynodeb byr i'r Pwyllgor am PIRC. Ei gred ef oedd bod safbwyntiau negyddol yn y wasg o amgylch perfformiad LGPS ac fe heriodd y safbwyntiau hyn. Dyma'r pwyntiau allweddol o'r cyflwyniad;

- Roedd yr ystadegau a ddangoswyd yn seiliedig ar ffeithiau nid barn, ac mae 60 Cronfa'n cyfranogi yn y byd LGPS.
- Roedd perfformiad y 12 mis diwethaf wedi bod yn gadarnhaol iawn (21.4%), wedi'i hybu'n bennaf gan ecwitïau

- Dros y tymor hwy, dim ond 6 allan o’r 30 mlynedd diwethaf a oedd wedi cael enillion buddsoddi negyddol.
- Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae’r enillion asedau wedi bod yn gadarnhaol iawn gydag enillion real yn fwy na chwyddiant o 6% p.a.
- Felly nid oedd perfformiad asedau’n broblem gydag ariannu; gyda’r costau dyledion y cafwyd y materion.
- Dros y 30 mlynedd diwethaf, mae'r dyraniadau asedau yn yr LGPS wedi dod yn fwy cymhleth, gan symud o asedau traddodiadol (ecwitïau/bondiau), gydag ychydig o reolwyr, i strwythurau sy’n fwy cymhleth (10 rheolwr neu fwy a rheolaeth fwy gweithredol), ond mae’r rheolaeth weithredol hon wedi ychwanegu c0.4% pa at yr enillion.
- Mae yna gyswllt cadarnhaol rhwng risg ac enillion fel y disgwylir o bosibl
- Ymddengys bod peth effaith enillion ychwanegol ar gyfer Cronfeydd mwy (yn ôl maint ased) dros y tymor hir, ond mae hyn yn debygol oherwydd symudiad cyflymach at asedau amgen fel ecwiti/eiddo preifat, a gallu rheoli mewnol o bosibl yn lleihau ffioedd. Mae’r fantais hon o ran perfformiad wedi erydu llawer yn fwy diweddar.
- Dylai cyfuno ar draws Cymru a Lloegr ddarparu arbedion maint (yn cynnwys rheolaeth fewnol) a mynediad at ddewisiadau buddsoddi ehangach.
- Anodd dweud ar hyn o bryd a fydd cyfuno'n darparu elfennau Llywodraethu a Penderfyniadau cryfach, ond mae'n hanfodol bod gan y gweithredwr brosesau cadarn o amgylch tryloywder cost a dewis rheolwyr. Dylid nodi nad yw ffioedd is yn fesuriad o werth am arian – yr enillion net o ffioedd sy’n bwysig.
- Mae gwahanol Gronfeydd gyda gwahanol amcanion o bosibl e.e. Llundain yn lleihau niferoedd a chostau rheolwyr ond Cymru’n denu maint ar gyfer mynediad rhatach i ddosbarthiadau ased penodol.

Gwnaed nifer o sylwadau a holwyd cwestiynau i gael eglurhad.

Holodd Mr Everett sut y gellir mesur a yw’r Gronfa’n gordalu am rai gwasanaethau buddsoddi a sut mae’r Gronfa’n gwerthuso ffioedd i gael gwerth am arian. Nododd Mr Cullinan y bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y cyflwyniad nesaf, ond yn ei farn ef, gellid ei wneud drwy gymharu enillion gros ac enillion net, er bod hyn yn fesuriad bras, felly mae angen cadw ffactorau eraill mewn cof e.e. gwahaniaethau mewn dyraniadau, proffiliau risg a gwerth a ychwanegwyd.

Holodd y Cynghorydd Llewelyn-Jones ynghylch yr annibyniaeth sydd gan WPP h.y. a fydd pwysau gan Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn prosiectau isadeiledd yng Nghymru. Ymatebodd Mr Everett i’r ymholiad hwn drwy gadarnhau bod y Gronfa’n annibynnol a’u bod yn gorfod gwneud penderfyniadau er lles gorau’r Gronfa. Fodd bynnag, bydd nifer o brosiectau y gellid eu hystyried gan y WPP o ran potensial ar gyfer buddsoddiad gan Gronfeydd.

Rhoddodd Mrs Fielder y sylw y gallai cyfuno (mewn theori) roi mynediad i’r Gronfa at y rheolwr "gorau mewn dosbarth” ond onid yw’r holl gronfeydd yn mynd ar ôl yr un rheolwyr, ac a allai Cronfeydd unigol yn syml wneud yr un peth? Ymatebodd Mr Cullinan drwy ddatgan bod y cronfeydd mwyaf yn cael mynediad ar hyn o bryd i’r rheolwyr gorau mewn dosbarth, ond y gwahaniaeth yw maint cyffredinol y mynediad, a fyddai’n lleihau costau pe byddai mwy o Gronfeydd yn ffurfio trefniant. Efallai bod rhai cronfeydd eraill yn meddwl am fuddsoddi yn yr un rheolwyr, ond bydd safbwyntiau gwahanol o ran beth

yw gorau mewn dosbarth, a bydd y modd y gellir cael gafael ar reolwyr yn bwysig (a fydd yn wahanol i bob Cronfa).

Holodd Mrs McWilliam sut roedd Mr Cullinan yn mesur cyfnewidioldeb. Ymatebodd Mr Cullinan drwy ddatgan eu bod yn cael eu mesur o'r pwynt isaf i'r uchaf fel y gwyriad safonol dros gyfnod o 36 mis.

Holwyd Mr Cullinan gan Mrs McWilliam am eglurhad o ran y term "perfformiad o ddyrniad ased gweithredol" ar gyfer aelodau newydd o'r Pwyllgor, wrth ystyried y mater o reolaeth weithredol yn ychwanegu gwerth. Eglurwyd hyn fel perfformiad gwirioneddol y Gronfa yn erbyn pe bai wedi buddsoddi ei hasedau yn eu dyraniadau meincnodi.

Holodd Mrs McWilliam a oedd y perfformiad a ddyfynnwyd yn cael ei fesur heb gynnwys ffioedd. Cadarnhaodd Mr Cullinan nad oedd y ffigurau tymor hwy yn cael eu mesur heb gynnwys ffioedd.

Holodd y Cadeirydd a oedd gan Mr Cullinan unrhyw feddyliau ynghylch a fydd yr LGPS yn ei gyfanrwydd yn newid dyraniadau buddsoddi dros y 10 mlynedd nesaf. Barn Mr Cullinan oedd y byddai dyraniad i asedau risg traddodiadol fel ecwitïau'n disgyn a byddem yn gweld dyraniad cynyddol i fuddsoddiadau mewn isadeiledd, Cronfeydd Twf Amrywiol a dosbarthiadau ased amgen eraill.

Nododd Mr Latham y bydd symud i ddyraniadau uwch mewn asedau amgen yn cynyddu costau, felly mae'n bwysig nad costau yw'r unig ystyriaethau o ran perfformiad y cronfeydd.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Cullinan am ei gyflwyniad.

## 103. PERFFORMIAD A RISG BUDDSODDIAD CRONFA BENSIYNAU CLWYD

Croesawyd John Simmonds o CEM benchmarking gan y Cadeirydd i gyflwyno'r cwmni, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad buddsoddi Cronfa Bensiynau Clwyd. Cyflwynodd Mr Simmons CEM benchmarking a nododd ei fod yn bodoli'n bennaf i gymharu costau gweithredu Cronfeydd Pensiynau mawr o amgylch y byd. Nododd fod 150 o'r Cronfeydd Pensiwn uchaf yn gweithio gyda CEM benchmarking. Maent ar hyn o bryd yn meincnodi 33 Cronfa LGPS.

Maent yn cymharu perfformiad Cronfa Bensiynau Clwyd gyda gweddill yr LGPS. Y pwyntiau allweddol a anerchwyd gan Mr Simmonds oedd;

- Dau fetrig allweddol: perfformiad yn erbyn Cronfeydd eraill, ac yn bwysicach, yn erbyn y dyledion
- Amcan Cyfuno'n bennaf yw cyflawni arbedion maint.
- Enillion net buddsoddi Cronfa Bensiynau Clwyd ar gyfer 2017 oedd 21.5%, a oedd yr un peth â chanolrif LGPS ar gyfer y flwyddyn honno.
- Roedd yr enillion net 5 mlynedd ychydig yn is na'r canolrif dros 5 mlynedd ond yn well na'r canolrif dros 3 blynedd.
- Yr "enillion polisi" yw'r enillion o'r penderfyniadau dyrannu asedau a fydd yn parhau i fod o fewn y Pwyllgor Cronfeydd Pensiwn ar ôl cyfuno. Ar gyfer y Gronfa, mae'r rhain o dan y canolrif yn bennaf oherwydd y dyraniad ecwiti is dros y cyfnodau a fesurir.
- Cydran hanfodol yw'r lefel o risg fel mesuriad yn erbyn y dyledion. Yn seiliedig ar y mesuriad hwnnw, gellir gweld bod y Gronfa ar ei lefel isaf o risg, sy'n

gadarnhaol gan fod hynny'n golygu bod canlyniadau diffyg ariannol yn fwy rhagweladwy (gyda phopeth yn gyfartal)

- Roedd gwerth ychwanegol net ar gyfer y Gronfa o reolaeth weithredol yn y chwartel uchaf.
- Mae costau buddsoddiadau yn erbyn grŵp cymheiriaid yn uwch na'r cyfartaledd, ond mae hyn yn adlewyrchiad o gymysgedd asedau. Os ceir gwared ar hyn drwy normaleiddio yn erbyn portffolio meincnodi, mae'r gwahaniaeth mewn cost yn llawer llai.
- Mae costau'n debygol o gynyddu i Gronfeydd eraill wrth i'r cronfeydd gael mwy o fynediad at y farchnad breifat a buddsoddiadau amgen.
- Mae "effeithiolrwydd cost" y Gronfa h.y. Gwerth ychwanegol net yn erbyn cost yn dangos bod y Gronfa'n cael gwerth ychwanegol cadarnhaol ar gyfer y gost a warir (yn faterol dros y 12 mis diwethaf),

Holodd Mrs McWilliam Mr Simmonds am y broses y mae'n mesur ac yn penderfynu ynghylch y ffactor risg. Eglurodd Mr Simmons eu bod yn profi ar y berthynas rhwng y dyledion yn erbyn lefel y cyfnewidioldeb o risg ased. Holodd Mrs McWilliams a oedd swyddogion wedi'u synnu o wybod lle'r oedd y Gronfa'n eistedd wrth gymharu lefel ariannu gyda risg camgymhariad ased-dyled. Cadarnhaodd Mr Latham y byddai hyn i'w ddisgwyl o ystyried lefel y ffocws ar reoli risg drwy'r Flightpath.

Holodd Mr Everett a oedd y sefyllfa a ddangosir yn y man y dymunai'r Gronfa fod. Cadarnhaodd Mr Middleman mai amcan y Gronfa oedd rheoli risg i roi mwy o ganlyniadau sefydlog i gyflogwyr wrth i'r goddefgarwch i gyfnewidioldeb sy'n cyfrannu leihau'n fawr wrth i gyllidebau leihau. Mae sefyllfa'r risg berthynol is yn bodloni'r amcan hwnnw, felly mae mewn sefyllfa y dymuna'r Gronfa fod, ond os gellir ei wella ymhellach wedyn, yna dylai hynny fod yn uchelgais i'r Gronfa. Esiampl o hyn yw cynnal y strategaeth diogelu ecwiti na chaniateir yn y dadansoddiad ac yn lleihau cyfnewidioldeb asedau. Mae Mr Middleman yn credu dyma lle mae'r LGPS yn ystyried yn fwy cyffredinol, gan fod Cronfeydd eraill yn canolbwyntio'n agosach ar reoli risg, fel y gwelir gan nifer o strategaethau amddiffyn ecwiti a ystyrir ac y gweithredir.

Holwyd Mr Simmonds gan y Cadeirydd a oedd ganddo unrhyw feddyliau ar sut y byddai'r Llywodraeth yn mesur perfformiad y Cronfeydd wrth symud ymlaen. Nododd Mr Simmonds y byddai angen i'r amcanion fod yn glir o'r cychwyn cyntaf e.e. mae arbedion cost wedi'u darparu fel yr addawyd, ond byddai'n anodd mesur llywodraethu gwell ar wahân, gan y byddech yn gorfod gallu mesur y sefyllfa cyn cyfuno ar sail debyg, na all fod yn bosibl.

Bydd angen i gronfeydd roi data mewn fformat cyson fel y gellir mesur y "llwyddiant" yn wrthrychol, a dylid seilio hyn ar a yw'r Cronfeydd yn cael gwerth am arian. Nododd fod tryloywder costau a ddangoswyd gan Gronfa Clwyd yn ddull cadarnhaol iawn i helpu gyda hyn. Yn yr un modd, bydd angen i unrhyw fesurydd perfformiad gynnwys rhai mesurau risg yn erbyn dyledion i fod yn gymharydd buddiol. Mae CEM yn gweithio gyda Chronfeydd i ddatblygu'r dadansoddiad meincnodi hwn.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Simmons am ei gyflwyniad.

## 104. CYFUNO ASEDAU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Croeswyd Sasha Mandich (Russell Investments) a Duncan Lowman (Link Fund Solutions) gan y Cadeirydd, a llongyfarchodd Link a Russell ar eu penodiad fel gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP). Diolchodd Mr Lowman i'r Cadeirydd, cyflwynodd Link a Russell a nodi'r rhaglen yn gryno. Eglurodd Mr Lowman y bydd Link yn gweithredu'r gronfa ar ran WPP a bydd Russell Investments yn cynghori'r WPP ar

ddewis rheolwr. Rhoddodd y cyflwyniad drosolwg o'u busnesau a phrofiad yn y meysydd hyn.

Holodd y Cynghorydd Palmer, fel aelod newydd o'r Pwyllgor, i'r cyflwynwyr egluro ystyr yr acronymau yn ystod y cyflwyniadau.

Mae'r Gronfa yn Gynllun Contractiol Awdurdodedig (ACS) yr FCA, gan ddefnyddio Northern Trust fel y ceidwad a'r gweinyddwr. Byddai'r rheolwyr buddsoddi'n cael eu penodi i'r platfform. Budd strwythur ACS yw ei fod yn bosibl adennill treth e.e. treth ar ddifidendau nad oes modd eu hadennill o dan drefniadau eraill.

Mae amcanion y WPP yn hanfodol i sefydliad y trefniadau cyfuno, sef:

- I ganiatáu pob Cronfa (trwy'r defnydd o is-gronfeydd) i weithredu eu strategaeth buddsoddi eu hunain, sy'n parhau i gael ei phennu gan y Pwyllgor ar gyfer Cronfa Clwyd
- I leihau a rheoli costau a gwneud y gorau o effeithiolrwydd treth
- Caniatáu mynediad i reolwyr asedau gorau, sy'n ategu at ei gilydd drwy drefniadau llywodraethu gwell y pennir drwy'r WPP drwy ei strwythur llywodraethu
- Gwella maint drwy gael mynediad at gronfa fwy o asedau a mabwysiadu arferion gorau o ran rheolaeth portffolio

Cam cyntaf y prosiect fydd gweithredu is-gronfeydd Ecwiti Byd-eang gan mai dyma'r Asedau o dan Reolaeth (AUM) mwyaf ledled Cymru. Y dyddiad targed i gymeradwyo'r rhestr o reolwyr yw 15 Mawrth. Mae trafodaethau ffi gyda'r rheolwyr yn mynd rhagddynt. Mae yna gynllun prosiect (fel y crynhoir yn y sleidiau) sy'n targedu cyflwyniad yr FCA ar 1 Mai.

Holodd Mrs McWilliam a oeddent wedi penderfynu ar reolwyr y Gronfa a phwy sy'n gwneud y penderfyniad hwn. Cadarnhawyd y caiff y penderfyniad hwn ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu mewn ymgynghoriad â Russell and Link. Holodd Mrs McWilliam hefyd a oedd yn realistig bod cymeradwyo rheolwr ecwiti'n cael ei gwblhau erbyn 15 Mawrth. Cadarnhaodd Mr Lowman, yn ei farn ef, bod hyn yn realistig a bydd mwy o drafodaethau'n cael eu cynnal ddydd Llun 26 Chwefror a fydd yn trafod yr opsiynau amrywiol.

Cyflwynodd Mr Mandich i'r Pwyllgor, a thynnodd sylw at y pwyntiau allweddol;

- O fewn pob is-gronfa, yn hytrach na phenodi un rheolwr, gall Link a Russell helpu'r Gronfa i amrywio'r risg rheolwyr. Gwneir hyn drwy gynnig rhestr o reolwyr sy'n ategu at ei gilydd, gan mai'r nod yw cael enillion marchnad gwell na'r canolrif, ond sy'n risg is oherwydd amrywiaeth.
- Crynhowyd manylion dull ymchwilio i reolwyr Russell, sy'n gyfuniad o'r 4 P o ymchwil rheolwyr – Ansoddol (Pobl a Phroses) a Meintiol (Portffolio a Pherfformiad).
- Tynnwyd sylw at y ffaith bod perfformiad y gorffennol yn ddangosydd gwael o berfformiad y dyfodol. Felly nid ydynt yn sgorio rheolwr ar eu perfformiad yn y gorffennol; maent yn ei seilio ar berfformiad disgwyliedig yn y dyfodol.
- Mae llawer o ddadansoddi ansawdd uchel ynghlwm wrth gasglu'r rheolwyr gorau ar gyfer y Gronfa (mae yna 44 dadansoddwr ymchwil rheolwr llawn amser). Mae'r dadansoddiad yn cynnwys cyfweliadau, deialog parhaus a dadansoddi pob masnach a wnaed gyda'u portffolio.
- Byddai pob rheolwr yn cael ei sgorio'n seiliedig ar y meini prawf hyn.

Holodd Mrs Fielder a oedd posibilrwydd o'r holl gronfeydd yn mynd ar ôl y rheolwyr gorau, a fyddai'n peri materion capasiti ac yn rhoi straen ar reolwyr sy'n amharu ar eu perfformiad. Ymatebodd Mr Mandich drwy ddatgan fod gan bob rheolwr arddull rheolwr unigol a bydd rhai rheolwyr â chyfyngiadau ar AUM. Cadarnhaodd Mr Mandich y byddai'r argymhelliad gan Russell yn ystyried materion capasiti a byddai terfynau ar gyfer y buddsoddiadau a osodwyd hefyd yn cael cytundeb.

Holodd Mrs Fielder hefyd am y ffocws ar fuddsoddi cyfrifol. Cadarnhaodd Mr Mandich fod hyn wedi bod yn ffocws mawr am nifer o flynyddoedd ac yn un o'r ffactorau a sgoriwyd fel rhan o'r ymchwil. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai'r holl Gronfeydd yn hoffi gwneud rhywbeth ar ESG (Buddsoddi Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu) ond i wneud iddo weithio ar lefel gyfun, mae angen mwy o gysondeb. Byddai hyn yn golygu cael Cronfeydd a Chyfuniadau o bosibl i symud i bolisi cyffredin i ennill mantais ar faint.

Holodd Mr Middleman a ydynt yn cymhwyso pwysiadau gwahanol i'r 4 P yn dibynnu ar y dosbarthiadau ased e.e. os ystyrir medr rheolwr i fod yn fwy pwysig na rhai ffactorau proses. Cadarnhaodd Mr Mandich eu bod yn eithaf unffurf a chyson ar draws pob dosbarth.

Holodd Mrs McWilliam sut y byddai'r broses yn gweithio mewn perthynas â rhai o'r cyfleoedd isadeiledd Cymreig. Ymatebodd Mr Mandich drwy ddatgan ei fod yn fuan iawn i allu dweud, ond gallant ystyried ar draws y WPP a chael arbenigedd os oes angen i gasglu mwy o ymchwil. Cadarnhaodd y byddai'r Cronfeydd yn cael cefnogaeth lawn.

Rhoddodd Mr Everett sylw ei bod yn debygol y byddai'r partïon perthnasol yn dod at y Cronfeydd ynghylch cyfle buddsoddi, yn hytrach na rheolwyr yn ymchwilio ac yn edrych i mewn i'r cyfleoedd hyn. Nododd Mr Mandich y gellid cytuno ar ddyrannu canran o'r asedau i'r cyfleoedd hyn, a byddai hyn yn cael ei drafod yn y WPP.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at ddiweddariad penodol ar gyfer Cronfa Clwyd. Trafodwyd 6 strategaeth bwced:

- Ecwitïau – Mandadau gweithredol gydag Investec yn debygol o symud i is-gronfa ecwiti Byd-eang. Is-gronfa marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg i gael ei lansio erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd hyn yn caniatáu £200m i gael ei symud. Yn ogystal, mae ased Blackrock (£70m) eisoes yn rhan o'r cydgrynhoad mandad goddefol yng Nghymru.
- Credyd – credyd aml-ased cyfredol yn dal (£200m) o fudd o bosibl i gronfeydd Cymreig eraill. Mae trafodaeth yn mynd rhagddi gyda Stone Harbor ynghylch sut y gellir gweithredu hynny ar y platfform. Mae credyd preifat (£14m) yn fwy cymhleth i'w symud, felly gallai gymryd mwy o amser i'w ystyried.
- Platfform a reolir – Cyfarfod Russell/Link i drafod hyn gydag ManFRM ar gyfer yr asedau cyfredol (£150m) gan fod y platfform yn gallu ehangu'n gyflym o bosibl ar gyfer Cronfeydd Cymreig eraill.
- Tactegol – Mandadau DGF (£170m) yn debygol o fanteisio ar ffioedd is drwy gydgrynhoi. Archwilio opsiynau i symud y portffolio Syniadau Gorau (£200m) ar y platfform.
- Asedau Gwir a Marchnadoedd Preifat – asedau (£350m) yn annhebygol o symud yn 2018 oherwydd hylifedd a diffyg gorgyffwrdd â Chronfeydd Cymreig eraill.
- LDI – asedau (£400m) anoddaf i'w cyfuno oherwydd eu bod yn bwrpasol ac angen ffrwd data ac adrodd penodol.

Pwysleisiodd Mr Mandich nad y bwriad oedd gorfodi asedau ar y platfform dim ond er mwyn gwneud hynny.

Nododd Mr Latham y bydd y penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau fel y Credyd Aml-Ased nawr yn cael eu gwneud gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu, felly bydd angen cefnogaeth ehangach gan Gymru. Cadarnhaodd Mr Mandich hyn.

Holodd Mrs McWilliam a oedd yna gyfryngau eraill sy'n well ar gyfer rheoli'r asedau, ac eithrio'r ACS. Ymatebodd Mr Mandich drwy ddweud bod hynny'n gywir ac angen ei ystyried. Mae gwaith strwythur ACS ar gyfer ecwitïau byd-eang, sef y man cychwyn.

Holodd y Cadeirydd a oedd yna unrhyw beth arall y gallai'r Gronfa ei wneud i gefnogi eu gwaith. Ymatebodd Mr Mandich nag oedd, gan nodi bod Mr Latham a Mrs Fielder wedi cyflenwi cefnogaeth ardderchog mewn perthynas â sut i symud ymlaen.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Mandich a Mr Lowman am eu cyflwyniad ac edrychodd ymlaen at y wybodaeth ddiweddaraf yn y dyfodol.

## 105. DIWEDDARIAD AR GRONFA BENSIYNAU CLWYD

Symudodd y Cadeirydd ymlaen i'r eitem olaf ar y rhaglen, a oedd yn ddiweddariad cyffredinol ar Gronfa Bensiynau Clwyd ers cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor.

O ran yr adran Lywodraethu 1.01, rhoddwyd sylw bod angen trefnu dyddiadau er mwyn cynnal hyfforddiant. Dywedodd Mrs McWilliam y byddai e-bost yn cael ei gylchredeg gydag opsiynau, ac mai'r flaenoriaeth allweddol oedd cael dyddiadau a fyddai'n addas i'r aelodau mwyaf newydd. Yr amcan yw cael 2 ddiwrnod hyfforddiant, un ym Mawrth ac un yn Ebrill.

Cyfeiriodd Mr Latham at adran 1.04; nododd y bydd y gweinidog newydd, Rishi Sunak AS, yn gyfrifol am osod y ddeddfwriaeth LGPS newydd. Mae Mr Sunak yn awyddus gyda gwybodaeth gefndir am gyfuno a buddsoddiadau, ac yn edrych ar gynaliadwyedd yn yr LGPS a beth mae'n ei olygu i awdurdodau.

Roedd Adran 1.05 yn crynhoi rhaglen Bwrdd Ymgynghori'r Cynllun (SAB) cyfredol. Crybwyllodd Mr Latham mai un maes a oedd wedi dychwelyd i'r rhaglen mewn trafodaethau cenedlaethol diweddar oedd gwahaniad y Cronfeydd LGPS oddi wrth y Cyngor fel endidau cyfreithiol. Rhoddir unrhyw ddiweddariadau pellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Nododd Mr Latham y bydd y newid o Lywodraeth Cymru i eithrio cyfrifon y Gronfa Bensiwn o gyfrifon y Cyngor yn effeithio ar ddulliau cymeradwyo ar y ddwy gyfres o gyfrifon ac mae'r amseriad yn cael ei drafod. Mae hyn yn effeithio Cronfeydd Cymreig (nid Seisnig) yn unig, felly byddai angen ystyriaeth ar draws Cymru o bosibl i'w wneud mor hawdd â phosibl.

Cyfeiriodd Mr Middleman at adran 1.07 a dywedodd bod y lefel ariannu wedi disgyn ers hynny i 89% oherwydd y gostyngiad mewn marchnadoedd ecwiti, sydd yn dal yn llawer ar y blaen o lle rydym yn disgwyl i'r Gronfa fod. Roedd hyn yn pwysleisio'r pwysigrwydd o'r amddiffyniad ecwiti sydd gan y Gronfa yn ei lle i reoli'r risg o ostyngiad mawr mewn marchnadoedd. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae strwythur hyn yn cael ei ailystyried cyn i'r trefniant presennol ddod i ben yn Ebrill.

Nododd Mr Harkin, ar ddiwedd Ionawr 2018, fod asedau'r Gronfa dros £1.8 biliwn. Nododd hefyd fod Cronfeydd LGPS eraill hefyd wedi bod yn ystyried amddiffyniad ecwiti fel rhan o reolaeth risg.

Holodd y Cynghorydd Llewelyn-Jones i Mr Harkin roi eglurhad pellach o ran tudalen 50, paragraff 2 o gasgliad y diweddariad Economaidd a Marchnad h.y. a all y twf cyfredol barhau ac a all banciau canolog ei fforddio. Eglurodd Mr Harkin mai'r allwedd yw a ydy banciau'n gallu fforddio rhagor o esmwytho meintiol (QE) i ysgogi'r economi os oes angen. Mae hyn yn sicr wedi'i gwtogi'n ddiweddar. Yn yr un modd, mae'r hyn a wnaiff y Llywodraeth gyda pholisi ariannol (cyfraddau llog) yn bwysig. Ar hyn o bryd, ymddengys fod Llywodraethau a Banciau'n cefnogi ysgogiad parhaus, felly nid oes unrhyw arwyddion syth o ddirywiad neu ddangosyddion dirwasgiad, er bod economïau gwahanol mewn safleoedd gwahanol. I'r Gronfa bydd chwyddiant yn allweddol oherwydd mae enillion asedau'n gorfod o leiaf cyfateb i unrhyw gynnydd mewn chwyddiant, fel arall gallai costau gynyddu.

Cododd y Cadeirydd adran 1.12 o ran polisïau dewisol. Dros amser, mae angen datblygu'r rhain ac argymhelliad y Pwyllgor yw dirprwyo cymeradwyaeth y polisïau hyn i'r Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol. Cytunwyd ar hyn.

Rhoddodd Mr Everett wybod i'r Pwyllgor fod yr Home Farm Trust (HFT) wedi rhoi cynnig llwyddiannus a bellach yn gyflogwr newydd yn y Gronfa sy'n gadarnhaol

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

1. Bod y Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf ac yn rhoi sylwadau yn unol â hynny.

2. Bod y Pwyllgor yn cytuno ar y newidiadau i'r ddogfen 'Dirprwyo Swyddogaethau i'r Swyddog' yn Atodiad 6.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 1.10 pm)

.................................................

**Cadeirydd**